

ADRODDIAD BLYNYDDOL



2017-18

Cynnwys

Rhagair.....	tud 3
Uchafbwyntia'r Flwyddyn.....	tud 4
Dangosydd Strategaeth Iaith 2017-18.....	tud 7
Strwythur Rheoli a Staffio Menter Iaith Conwy	tud 9
Crynhodeb Ariannol 17-18.....	tud 11
I Gloi.....	tud 14

Rhagair

Er ni welwyd cynnydd yn ein grant sylfaenol bu MIConwy yn llwyddiannus mewn denu arian ôl gronfeydd eraill sydd wedi ei alluogi i gadw staff a chynyddu ein gweithgarwch. Gwelwyd cwblhau rhaglen Treftadaeth Loteri Conwy a'r Rhyfel Mawr yn ogystal a llwyddo efo cais arall i'r Gronfa i ddatblygu cynllun Treftadaeth Llanrwst, sydd wedi deillio o'n gwaith Tendr Flwyddyn y Chwedlau. Llwyddwyd hefyd i ennill tendr sylweddol i weithredu cynllun adfywio Ardal Hiraethog. Llwyddwyd hefyd i gael cefnogaeth ariannol gan Parc Cenedlaethol i barhau efo'r gwaith o hyfforddi siaradwyr Cymraeg yn y maes awyr agored a chyflogi swyddog am ddiwrnod yr wythnos yn ychwanegol.

Llwyddodd Cwmni Cyfieithu Cymunedol i sefydlu model busnes sydd llwyddo i dalu ei dyledion i MIConwy ac i ddod yn ariannol cynaliadwy..

Mae hefyd yn braf gweld y Meithrinfa Gymraeg Derwen Deg yn parhau i fynd o nerth i nerth. Rydym yn parhau efo cyswllt agos efo nhw trwy ein swyddog Mentrau Cymdeithasol ac mae 2 o'n cyfarwyddwyr yn eistedd ar ei bwrdd.

Fe disgynnodd y nifer o ddigwyddiadau yn ein rhaglen gwaith maes rhywfaint, darparwyd 272(372 y flwyddyn cynt) ond efo nifer tebyg yn mynychu, sef 5266 (5264 y flwyddyn cynt).Llwyddwyd i neud hyn er i ni beidio derbyn cynnydd yn ein grant craidd ac i ni cael staff i ffwrdd ar cyfnod mamolaeth. Eto mae llawer o ddigwyddiadau yma mewn cydweithrediad a'n 9 pwyllgor ardal sydd yn rhoi adnabyddiaeth arbennig i ni o'r Sir. Mae ein ddwy Swyddog ardal yn gweithio efo nhw i gesio codi ei chymhwysedd i ateb i broblemau sydd yn wynebu'r Gymraeg a'r llawr gwlad ar draws y Sir.

Cyhoeddwyd y Llywodraeth Strategaeth Iaith Newydd sef **Cymraeg 2050**, sydd a'r bwriad o greu 1000,000 o siaradwyr Cymraeg erbyn hyn y flwyddyn 2050. Roedd yn braf gweld fod yna pwyslais mawr ar defnydd o'r Gymraeg yn y strategaeth sydd yn cydnabod pwysigrwydd gwaith y Mentrau Iaith.

Uchafbwyntiau'r Flwyddyn

Nadolig Llandudno

Eto roedd Nadolig Llandudno yn lwyddiant ysgubol gennym. Dyma 'r ail flwyddyn i Menter Iaith Conwy drefnu rhaglen o eitemau Cymraeg ar y prif lwyfan yn Nadolig Llandudno a'r flwyddyn gyntaf hefyd i eitemau Cymraeg ymddangos yno o gwbl. Roedd y gynulleidfa yn amlwg wedi 'w werthfawrogi. Bu canmoliaeth mawr am yr eitemau gwahanol a llawer wedi nodi adborth ar dudalen Nadolig Llandudno.

Conwy a'r Rhyfel Mawr (Cynllun Treftadaeth Loteri)

Bu MlConwy yn llwyddiannus efo Cais i Gronfa Treftadaeth Loteri i gyflogi Swyddog i ddatblygu cynllun i amlygu effaith y rhyfel mawr ar Sir Conwy a'r Gymraeg. Penodwyd Eryl Jones yn swyddog i weithio ar y cynllun ac wedi dechrau ar waith ymchwil fydd yn sail ar gyfer llyfryn, safle we a drama efo disgyblion uwchradd ar hanes effaith y Rhyfel Mawr ar ardal Conwy.

Llyfr, safle we ac arddangosfa.

Cyhoeddwyd y Llyfr "Conwy a'r Rhyfel Mawr" gan Eryl Prys Jones. Cafodd y llyfryn ei lansio a dilynodd taith o gwmpas y sir efo arddangosfa pwrpasol. Mae hefyd safle we <http://conwygreatwar.org/> sydd modd ei ddiweddarau os oes mwy o wybodaeth yn dod i law am y cyfnod yma.

Cyfieithu Cymunedol

Bu'r cwmni trwy cyfnod anodd efo'r Prif cyfieithydd (Dafydd Chilton) yn ymdeol ac Glyn Jones hefyd yn gadael i weithio i gwmni arall, er mi fydd dal yn parhau i weithio yn llawrydd i'r cwmni. Mae diolch mawr i'r ddau sydd wedi bod ynghlwm a'r cwmni ers ei ddyddiau cynnar, ac wedi bod yn rhan allweddol o'i ddatblygiad ac hyfforddi staff newydd. Mae'r cwmni wedi trio mentora

cyfieithydd newydd drwy hyfforddiant efo Dafydd, ond mi gollwyd y cyfieithydd newydd i gwmni arall. Serch hyn mae'r Cwmni wedi penderfynu beidio mentro i gyflogi trydydd cyfieithydd a dibynnu ar cyfieithwyr llawrydd er mwyn diogelu y cwmni rhag adegau distaw. Mae'r ddwy sydd yn weddill (Dwysan ac Eluned) i weld yn ymdopi efo'r gwaith a mae sefyllfa'r ariannol i weld yn cryfhau, sydd wedi golygu fod modd codi gyflogau.

Meithrinfa Gymraeg Derwen Deg

Mi agorodd y feithrinfa ym Medi 2015. Heb os un o lwyddiannau mawr MIConwy. Mae hyd aty 30 o plant rwan yn cael gofal dyddiol yno. Erbyn hyn mae Gwyn Roberts, cyn Cadeirydd Menter Iaith Conwy rwan yn Gadeirydd ar Meithrinfa Gymraeg Derwen Deg.

Yr Orsaf

Bwriad y Cynllun i'w adnewyddu'r adeilad a lleoli rhai o gynlluniau newydd MIConwy ynddo. Mae'n cael ei yrru gan Gwmni Tref Llanrwst sydd wedi cael ei sefydlu fel menter gymdeithasol. Maent wedi cael addewid o 70k i adnewyddu'r adeilad gan Yr Ymddiriedolaeth Treftadaeth Rheilffyrdd er mwyn cychwyn y gwaith adnewyddu. Rydym wedi llwyddo i gael caniatâd cynllunio i ddatblygu'r orsef ers y llynedd ond eto mae'n anodd cael hyd i gyfalaf ychwanegol i addasu'r adeilad. Oherwydd hyn mae dipyn o amser wedi cael ei treulio yn datblygu cynlluniau eraill megis Tendyr a cheisiadau pellach Blwyddyn y Chwedlau. Er i ni cael addewid gan **Cronfa'r Loteri Treftadaeth** o gyllid roedd rhaid cael i i gyllid cyfatebol o nifer o wahannol ffynhonnellau. Yn diwedd llwyddwyd i ddenu y cyllid canlynnol i ddatblygu'r cynllun;

Cronfa'r Loteri Treftadaeth	£34,100
Parc Cenedlaethol Eryri	£999
Cyngor Tref Llanrwst	£1000
LAG (RDP)	£5000
MIC	£600
Cyfanswm	£41,699

Mae amser hefyd wedi mynd ar sefydlu cynllun Adfywio Hiraethog. Hefyd mae yna symud pendant i brynnu a datblygu adeilad i Menter Iaith Conwy felly mae ceisiadau cyfalaf llai wedi bod yn cael ei datblygu efo hynh mewn golwg

Cynllun Adfywio Hiraethog

Ym Mis Ionawr bu Miconwy yn llwyddiannus wrth gystadlu am tendr 3 mlynedd gan y Gronfa Datblygu Gwledig i weithredu cynllun yma. Bydd y cynllun yn edrych ar adnabod blaenoraethau i'w datblygu a diffinio ardal bydd wedyn yn gallu targedu arian bydd yn dod o gronfa fferm wynt Clycaennog. Bydd y gronfa yma yn dosbarthu hyd at £750k y flwyddyn i'r gymuned.

Adeilad i Menter Iaith Conwy

Mae adeilad Ty Carrington a'r sgwar Llanrwst wedi dod ar werth. Rydym wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth efo Cyngor Tref Llanrwst i'w berchnogi. Mae Swyddfa presennol y cyngor yn Adeilad yr Elesendai sydd yn cefni ar Ty Carrington. Yn wir gallwch gerdded trwy cefn Ty Carrington i gerddi Yr Elesendai. Llwyddwyd i cyflwyno 2 (RCDF arian Ewropiaidd 128k) a (CFP – Llywodraeth Cymru 25k)gais er mwyn prynu ac addasu'r adeilad. Gwnethpwyd cynnig am yr adeilad o 70k a chafodd ei dderbyn gan y perchenog. Ar ol i'r cyfreithwyr cwblhau ei gwaith gofynodd cyfreithiwr y perchennog i ni dalu hanner bil treth Cyngor oedd yn ddyledus ers 1996 (gan fod y perchenog presennol wedi cael hawl i berchnogi'r adeilad trwy sgwotio). Cafwyd cyngor cyfreithiol i wrthod talu. Oherwydd hyn mi tynodd y perchennog yn ol o'r pryniant.

Yn y cyfamser ddaru banc y HSBC yn Llanrwst cau. Fe benderfynwyd gall gwireddu llawer o'n cynlluniau yn yr adeilad yma oedd yn llawer mwy a llai o waith arno. Llwyddwyd newid y ceisiadau i cynnwys yr adeilada newydd. Roedd rhaid i MiConwy gystadlu trwy proses tendro hir a chymleth er mwyn cael yr hawl i brynnu'r adeilad. Cafwyd wybod ychydig cyn y Nadolig fod ein cais wedi bod yn llwyddiannus. Roeddwn dal yn aros am cadarnhad gan y 2 gronfa cyn gallu symud ymaelw efo'r pryniant.

EGNI

Rydym wedi llwyddo i ddenu ychydig o arian gan y Parc Cenedlaethol Eryri i gyflogi Gruff Wyn i edrych ar gynlluniau llai fydd yn arbed egni i adeiladau cymunedol. Digon i gyflogi am 1 diwrnod yr wythnos. Mae Gruff Wyn wedi bod yn gweithio efo Ysgol Ysbyty Ifan i ddatblygu cynllun Hydro Bychan fydd yn cyfuno Solar a Batri er mwyn lleihau costau rhedeg yr Ysgol.

Y Farchnad Lafur Gymraeg

Ni llwyddwyd efo cais i WEFO gan fod y Gymraeg ei hyn ddim yn ddigon o "lleinin arian" i ddenu cyllid a tra fod yna ddadl fod cyrff tebyg i Coop Cymru a Busnes Cymru yn neud rhyfaint o'r gwaith rydym yn ceisio cyflawni. Serch hyn ein dadl yw fod angen cymhwysedd yn lleol i edrych ar cyfleuoedd sydd yn addas i ddatblygu gwasanaethau cyfrwn Cymraeg newydd neu cyfleuoedd i weithredu mentrau trwy cyfrwng y Gymraeg. Fe gyflwynwyd cais pellach i Cronfa Datblygu Wledig er mwyn datblygu'r achos yma mewn cydweithrediad a Wynfford James (Gwirfoddol/Four Cymru) a Emily Cole (Mentrau Iaith Cymru) i ymchwilio mewn i'r maes. Mae'r cais wedi dderbyn mewn egwyddor ac rydym yn aros llythyr o gadarnhad.

Y Maes Awyr Agored

Rydym wedi bod yn cyflogi swyddog Awyr Agored un diwrnod yr wythnos ac mae wedi llwyddo denu niferoedd parchus i'n clybiau Syrffio ac Eira fyrddio. Llwyddwyd hefyd i gael cefnogaeth ariannol gan Parc Cenedlaethol i barhau efo'r gwaith o hyfforddi siaradwyr Cymraeg yn y maes awyr agored a chyflogi swyddog am ddiwrnod yr wythnos yn ychwanegol.

Gwaith Maes o ddydd i ddydd

Mae ein Swyddogion Maes yn brysur yn gweithredu ein targedau i Lywodraeth Cymru. Mae llawer iawn o'i gwaith yn cael ei weithredu trwy ein Pwyllgorau Ardal (Llanrwst, Penmachno, Cerrigydrudion, Capel Garmon, Glan Conwy, Penmaenmawr a Llanfairfechan ac Abergele). Erbyn hyn mae hyn hefyd yn cynnwys 2 wyl. Un yn yr Ardal Weldig Llanast Llanrwst a diwrnod o a nos weithgaredda yn Nadolig Llandudno. Roedd y niferoedd oedd wedi mynychu y digwyddiadau yn eithaf cyson i gymharu efo llynedd. Mae hyn er ein fod ein grant craidd heb newid na chodi efo chwyddiant. Mae'r ffaith ein bod wedi llwyddo i ddenu arian gan y Gronfa Treftadaeth Loteri sydd wedi ychwanegu rhywfaint at ein gallu i gynnal digwyddiadau sydd yn cyfrannu at ein targedau.

Rydym hefyd yn parhau i gynnal clwb Syrffio Wythnosol a Chlwb Eira fyrddio. Erbyn hyn mae hyd at 40 yn mynychu yn wythnosol. Bu hefyd taith Eira fyrddio Blynnyddol i Ffrainc efo 30 o pobl o wahanol.

Dros y tudalennau nesaf mae yna gofnod manwl o'r gwaith MIConwy a sut mae'n clymu mewn a chynorthwyo i gyflawni strategaeth iaith y Llywodraeth. Mae modd cael adroddiad llawn a manwl 30 tudalen sydd yn gofnod o pob gweithgaredd.

Cyflawniad targedau Dangosydd Strategaeth Iaith 2017-18

Dangosydd Teuluoedd		Targed (Nifer y cytunwyd)	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4	Cyfanswm cyflawniad
Nifer o sgysiau 1:1 a geir gyda rhieni		600	202	110	0	60	372
Nifer o weithgareddau a drefnir i rieni		17	15	6	13	0	34
Nifer o blant sy'n mynychu gweithgareddau i'r teulu		250	122	78	224	0	424
Nifer o rieni sy'n mynychu gweithgareddau i'r teulu		250	101	66	184	0	351

Dangosydd Plant a Pobl Ifanc							
Nifer o weithgareddau a drefnir i blant a pobl ifanc		64	26	31	47	43	147
Nifer o blant a pobl ifanc yn mynychu gweithgareddau		1750	371	602	681	599	2253


Dangosydd Cymunedol							
Nifer o weithgareddau cymunedol a drefnir		26	23	25	22	21	91
Nifer o oedolion / rhieni yn mynychu gweithgareddau cymunedol		200	258	564	239	196	1257
Nifer o blant a phobl ifanc yn mynychu gweithgareddau cymunedol		100	131	115	250	113	609

Dangosydd Gwasanaethau Cymraeg							
Nifer o sefydliadau sector preifat sydd wedi derbyn cefnogaeth		150					0

Y Seilwaith							
Nifer o bobl sy'n derbyn cylchlythyrau							0
Nifer o bobl yn mynychu gweithgareddau cymunedol	nifer o ymweliadau i wefannau						0

Strwythur Rheoli a Staffio

Menter Iaith Conwy (MIConwy)



Crynhodeb Ariannol 17 - 18

Incwm

Bencythiadau £6,022.81

Swyddfa £160.30

Rhent £7,996.62

Teithio £0.00

Llywodraeth / MIC / Blwyddyn y Chwedl £110,570.00

Gwaith MIC £1,681.30

EgNI £7,739.00

Hiraethog £16,500.00

CTL £28,285.18

Urdd £5,000.00

Gweithgareddau Awyr Agored / CAE £11,415.99

Gweithgareddau Ysgolion £1,360.55

Trosglwyddiad £0.00

Blwyddyn y Chwedl £0.00

Arian i Bawb £0.00

Amrywiol £2,194.18

Twf Swyddi £6,276.20

cymraeg Byd Busnes £20,361.11

Cyfanswm = A £225,563.24

Gwariant

Bencythiadau £3,306.30

Swyddfa £9,451.20

Rhent £12,000.00

Teithio Llywodraeth £3,496.02

Awyr Agored £12,143.85

Llywodraeth / MIC / Blwyddyn y Chwedl £95,086.95

EgNI £7,523.35

Hiraethog £14,558.76

CTL £13,270.80

Gweithgareddau Awyr Agored £400.00

Gweithgareddau Ysgolion £390.80

Trosglwyddiad £5,283.26

Amrywiol £8,390.89

Marchnata £0.00

Costau Banc £130.37

Arian i Bawb £885.00

Offer £0.00

Twf Swyddi £3,735.04

Cymraeg Byd Busnes £11,330.10

Cyfanswm = B £201,382.69

Gwahaniaeth A-B £24,180.55

Balans Cychwynol £22,025.80

Balans Gorffenedig £46,206.35

I gloi

Am y tro cyntaf ers nifer o flynyddoedd gallwn weld fod trosiant MIConwy wedi cynyddu ac ei fod wedi llwyddo i ddenu cyllid o nifer o wahannol ffynhonnellau yn ogystal a gweinyddu tendrau sylweddol. Gwelwyd fod gwaith o addasu model busnes Cyfieithu Cymunedol yn cymryd llawer o adnoddau MIConwy ei fod wedi bod yn fuddsoddiad da i sicerhau cynladwyedd o'n prosiectau mwyaf arloesol sydd ynparhau i gyflogi 2 yn llawn amser a nifer yn llawrydd tra yn cynnig gwasanaeth hanfodol.

Rydym hefyd wedi cymryd camau bresion tu ag at perchnog adeilad ein hynna'n bydd yn arbed arian i ni ac gobeithio creu ffrydiau incwm fydd yn gallu cael ei ail fuddsoddi nol i gwaith MIConwy. Cawn weld os fydd blwyddyn nesa yn ein gweld yn gwireddu'r cynlluniau yma.

Meirion LI Davies
(Cyfarwyddwr Datblygu)

Wedi cymeradwyo gan y Bwrdd

Cyfarwyddwr: Huw Prys

Dyddiad

Cyfarwyddwr Eirian Pierce Jones

Dyddiad